*fodd yr Offeryn Statudol hwn ei argraffu er mwyn cywiro cyfeiliornad yn O.S. 2007/842 (Cy.74) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2007 Rhif 3004 (Cy.260 )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro cyfeiliornad yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 i'w gwneud yn dramgwydd i fethu â rhoi hysbysiad o ddaliad o dan reoliad 3.

Ni chafodd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2007 Rhif 3004 (Cy.260 )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) (Diwygio) 2007

*Gwnaed* *22 Hydref 2007*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*23 Hydref 2007*

*Yn dod i rym* *14 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru sydd wedi'u dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**) ac o ran mesurau yn y maes milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**3**), yn gwneud y rheoliad canlynol.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) (Diwygio) 2007; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 14 Tachwedd 2007.

**Diwygio Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007**

**2.** Diwygir Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007(**4**) drwy ychwanegu ar ôl rheoliad 3(3) y paragraff canlynol -

---

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddynodiad yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S.2003/1246. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddynodiad yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**4**) O.S. 2007/842 (W.74).

"(4) Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â pharagraff (1) neu baragraff (3) yn euog o dramgwydd."

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

22 Hydref 2007